**Adam Price AS/MS**
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Carmarthen East and Dinefwr

**37 Wind Street**
**Ammanford**
**SA18 3DN**

Annwyl Weinidog,

Rwy'n ysgrifennu'r llythyr hwn yn dilyn cyfarfod diweddar gyda Dr Andrew Cornish, Prif Swyddog Gweithredol / Pennaeth Coleg Sir Gâr.

Yn ystod y cyfarfod, eglurodd Dr Cornish fod Coleg Sir Gâr wedi creu cynlluniau i ddatblygu campws presennol y coleg yn Pibwrlwyd. Dywedodd fod y coleg am greu campws o'r radd flaenaf ar safle presennol Pibwrlwyd, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBM.

Byddai'r datblygiad hwn, eglurwyd, yn rhan o "resymoli campwsau'r coleg" a oedd yn cynnwys cau Coleg Rhydaman. Roeddwn yn bryderus iawn o glywed am y bwriad i gau, a fyddai'n ergyd enfawr i'r dref. Mae'r coleg yn cynrychioli sefydliad allweddol ac yn darparu gwasanaeth amhrisiadwy i bobl Rhydaman. Byddai'r bwriad i gau yn cyfyngu ar ddewisiadau addysg bellach i fyfyrwyr yn yr ardal ac yn eu gorfodi i deithio i ochr arall y sir ar gyfer rhai cyrsiau coleg.

Gan fod y prosiect hwn yn rhan o'r broses MIM, hoffwn gael eglurhad ar sawl mater:

1. Pryd y cawsoch chi fel Gweinidog gwybod am y prosiect hwn?
2. A wnaed yn glir y byddai'r prosiect yn arwain at neu yn ddibynnol ar gau Coleg Rhydaman?
3. Oeddech chi yn ystod y trafodaethau gyda'r Coleg wedi mynegi unrhyw wrthwynebiad neu pryderon am gau Coleg Rhydaman?
4. A fyddech chi fel Llywodraeth yn ystyried ychwanegu amod o ddarpariaeth barhaus yn Rhydaman/Dyffryn Aman er mwyn rhyddhau cyllid drwy'r broses MIM i ddatblygu safle Pibwrlwyd?
5. A fyddech chi yn disgwyl gweld ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn rhan o'r broses hon?

Fel rhywun a fagwyd yn y gymuned hon, gallaf dystio i bwysigrwydd y coleg fel sefydliad addysgiadol lleol amhrisiadwy. Byddai ei cholli yn ystod cyfnod o gyni ac ansicrwydd economaidd yn ergyd drom i unrhyw gymuned, ond i un o gymunedau mwyaf ddifreintiedig y sir mae e yn weithred o fandaliaeth gymdeithasol. Nid oedd Mrs Thatcher hyd yn oed wedi maeddu mynd mor bell a hyn.

Rwy'n erfyn arnoch i alw am ailystyried y penderfyniad hwn i adael Dyffryn Aman heb gampws addysg bellach am y tro cyntaf ers bron canrif.

Yr eiddoch yn gywir,



adam.price@senedd.cymru / adam.price@senedd.wales
01269 597 677
@Adamprice
/AdamPricePlaid

Adam Price AS / MS,
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Carmarthen East and Dinefwr

Senedd Cymru
Welsh Parliament
adam.price@senedd.cymru / adam.price@senedd.wales
01269 597 677
@Adamprice
/AdamPricePlaid